

2023 Rhif (Cy.)

2023 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A465  
(Dowlais, Merthyr Tudful i Fryn-  
mawr, Blaenau Gwent a Glanbaiden  
i'r Fenni, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau  
Cyflymder Dros Dro a Dim  
Goddiweddyd) 2023

The A465 Trunk Road (Dowlais,  
Merthyr Tydfil to Brynmawr,  
Blaenau Gwent & Glanbaiden to  
Abergavenny, Monmouthshire)  
(Temporary Speed Restrictions &  
No Overtaking) Order 2023

Gwnaed 24 Awst 2023

Made 24 August 2023

Yn dod i rym 4 Medi 2023

Coming into force 4 September 2023

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A465 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Dowlais, Merthyr Tudful i Frynmawr, Blaenau Gwent a Glanbaiden i'r Fenni, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Medi 2023.

1. The title of this Order is the A465 Trunk Road (Dowlais, Merthyr Tydfil to Brynmawr, Blaenau Gwent & Glanbaiden to Abergavenny, Monmouthshire) (Temporary Speed Restrictions & No Overtaking) Order 2023 and this Order comes into force on 4 September 2023.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw—

- (a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—
  - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
  - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 4 Medi 2023 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A465 Castell-nedd i’r Fenni;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Cyfyngiadau a gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a’r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means—

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1);
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
  - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
  - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A465 Neath to Abergavenny trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 4 September 2023 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

### Restrictions and prohibition

3. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

5. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 10 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

### Cymhwysio

7.—(1) Ni fydd y cyfyngiadau na'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### Atal dros dro

8. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3, 4 a 5 yn weithredol.

### Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

24 Awst 2023

*Nicci Hunter*

Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

6. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order during such times as the restriction referred to in article 5 is in operation.

### Application

7.—(1) The restrictions and prohibition in articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

### Suspension

8. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 3, 4 and 5 are in operation.

### Duration of this Order

9. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

24 August 2023

*Nicci Hunter*

Business Team Leader  
Welsh Government

## YR ATODLEN

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 750 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyfnewidfa Dowlais i bwynt 750 o fetrau i'r dwyrain o Bont Jack Williams, Bryn-mawr, gan gynnwys y darnau hynny o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain a'r gorllewin yn Nowlais, Rhymni, Tredegar, Gorllewin Glynebwy, Ystad Ddiwydiannol Rasa, Dwyrain Glynebwy a Chyfnewidfeydd Bryn-mawr.

## SCHEDULE

The length of the trunk road that extends from a point 750 metres west of the centre-point of Dowlais Interchange to a point 750 metres east of the Jack Williams Bridge, Brynmawr, including the lengths of the eastbound and westbound entry slip roads at Dowlais, Rhymney, Tredegar, Ebbw Vale West, Rassau Industrial Estate, Ebbw Vale East and Brynmawr Interchanges.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 750 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyfnewidfa Glanbaiden i bwynt 42 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Hardwick, y Fenni, gan gynnwys y darnau hynny o'r ffyrdd ymuno tua'r dwyrain a'r gorllewin yng Nghyfnewidfeydd Glanbaiden a Llan-ffwyst.

The length of the trunk road that extends from a point 750 metres west of the centre-point of Glanbaiden Interchange to a point 42 metres west of the centre-point of Hardwick Roundabout, Abergavenny, including the lengths of the eastbound and westbound entry slip roads at Glanbaiden and Llanfoist Interchanges.